Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

Yr Athrofa
Institute of Education
Addysg i Gymru
Education for Wales

www.athrofa.cymru

# Protocol
# Protocol




https://whiteboard.fi/

ECAD4009
Learners, schools and communities: where am I teaching?
ECAD4009
Dysgwyr, Ysgolion a Chymunedau: ble ydwyf yn addysgu?




# Session 6
# A Bilingual Nation
# Sesiwn 6
# Cenedl Ddwyieithog

Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant
University of Wales Trinity Saint David
Yr Athrofa Institute of Education
Addysg i Gymru Education for Wales
APLP PDPA
Partneriaeth Dysgu Proffesiynol Yr Athrofa
Yr Athrofa Professional Learning Partnership

## Mae’n bryd i ddysgu am y sefyllfa ieithyddol yng Nghymru

## Mae’n amser i ni gael cwis!!!

## Time to find out about the language situation in Wales

## Quiz time!!!



Office for National Statistics

Statistical bulletin

**2011 Census: Quick Statistics for Wales, March 2011**

This release follows that of the Key Statistics on 11 December 2012 and contains detailed geographical breakdowns and detailed Quick Statistics tables for residents' characteristics.

Contact: Emma White census.customerservices@ons.gsi.gov.uk

Release date: 30 January 2013

Next release: To be announced



https://play.kahoot.it/v2/?quizId=6c117b59-e38b-4952-a4da-c1148bc49475

## Categoriau o ysgolion

Mae ysgolion yng Nghymru yn cael eu categoreiddio yn ôl eu darpariaeth iaith Gymraeg:

1. Ysgolion **cyfrwng Cymraeg** (100% Cyfnod Sylfaen yn y Gymraeg, 70%+ CA2 yn y Gymraeg)
2. Ysgolion **cyfrwng Saesneg**
3. Ysgolion **dwy ffrwd**
4. **Ysgolion trawsnewidiol** (Y rhan fwyaf o'r Cyfnod Sylfaen yn y Gymraeg, 50%-70% CA2 yn y Gymraeg
5. **Ysgolion cyfrwng Saesneg gyda defnydd sylweddol o'r Gymraeg** (20%-50% yn y Gymraeg)

## Categories of school

Schools in Wales are categorised according to their Welsh language provision:

1. **Welsh medium** school (100% Foundation Phase in Welsh, 70%+ KS2 in Welsh)
2. **English medium** schools
3. **Dual stream** schools
4. **Transitional schools** (Foundation phase mostly in Welsh, 50%-70% KS2 in Welsh)
5. **English medium schools with significant use of Welsh** (20%-50% Welsh)

# Mathau o ysgolion

1. Ysgol Gynradd Cyfrwng Cymraeg

Y cwricwlwm - Mae pob disgybl yn y Cyfnod Sylfaen yn cael profiad o'r meysydd dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg. Cymraeg yw'r prif gyfrwng addysgu yng Nghyfnod Allweddol 2 ac mae o leiaf 70% o'r addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg. Caiff Saesneg ei gyflwyno yn ffurfiol fel pwnc yng Nghyfnod Allweddol 2 a chaiff ei addysgu drwy gyfrwng y Saesneg, ac mae'n bosibl y defnyddir Saesneg hefyd ar gyfer rai agweddau ar rai pynciau.

Iaith yr Ysgol - Cymraeg yw iaith yr ysgol o ddydd i ddydd. Cymraeg yw'r iaith a ddefnyddir i gyfathrebu â'r disgyblion ac yng ngweinyddiaeth yr ysgol. Mae'r ysgol yn cyfathrebu â'r rhieni yn y naill iaith a'r llall.

Y canlyniadau - Fel rheol, disgwylir y bydd disgyblion, ni waeth beth yw iaith y cartref, yn gallu trosglwyddo'n hawdd i ddarpariaeth uwchradd cyfrwng Cymraeg ac y byddant wedi cyrraedd, yn erbyn diwedd Cyfnod Allweddol 2, yr un safon yn Saesneg â disgyblion mewn ysgolion sydd, yn bennaf, yn rhai cyfrwng Saesneg.

# Types of school

**1. Welsh-Medium Primary School**

**Curriculum -** all Pupils in the Foundation Phase experience the areas of learning through the medium of Welsh. Welsh is the main teaching medium at KS2 with at least 70% of the teaching through the medium of Welsh. English is introduced formally as a subject at Key Stage 2 and is taught through the medium of English, and English may occasionally be used for some aspects of some subjects.

**Language of the School -** Welsh is the language of the day to day business of the school. Welsh is used as the language of communication with the pupils and for the school's administration. The school communicates with parents in both languages.

**Outcomes -** The normal expectation is that pupils, regardless of home language, will be able to transfer easily to Welsh medium secondary provision and by the end of Key Stage 2 will have reached a standard in English equivalent to that reached by pupils in predominantly English medium schools.

# Mathau o ysgolion

2. Ysgol Gynradd Ddwy Ffrwd

Y cwricwlwm - Mae dau fath o ddarpariaeth yn bodoli ochr yn ochr yn yr ysgolion hyn. Mae’r rhieni/disgyblion yn dewis naill ai’r ddarpariaeth sy’n bennaf drwy gyfrwng y Gymraeg, a gyflwynir yn yr un modd ag yng nghategori , neu’r ddarpariaeth sy’n bennaf drwy gyfrwng y Saesneg, a gyflwynir yn yr un modd ag yng nghategori 5.

Iaith yr Ysgol - Defnyddir y Gymraeg a’r Saesneg ym mywyd yr ysgol o ddydd i ddydd. Natur y ddarpariaeth gwricwlaidd sy’n pennu ym mha iaith y cyfathrebir â’r disgyblion, ond mewn rhai ysgolion, rhoddir blaenoriaeth uchel i greu ethos Cymraeg drwy’r ysgol. Mae’r ysgol yn cyfathrebu â’r rhieni yn y naill iaith a’r llall.

Y canlyniadau - Ar gyfer disgyblion yn y ffrwd Gymraeg, disgwylir, fel rheol, yr un canlyniadau ag ar gyfer categori . Ar gyfer y disgyblion hynny sydd yn y ffrwd cyfrwng Saesneg, disgwylir, fel rheol, yr un canlyniadau ag ar gyfer categori 5.

# Types of school

**2. Dual Stream Primary School**

**Curriculum -** Two types of provision exist side-by-side in these schools. Parents/pupils opt either for the mainly Welsh-medium or mainly English-medium provision which is usually delivered as in categories and 5 respectively.

**Language of the School -** Both Welsh and English are used in the day to day business of the school. The language of communication with the pupils is determined by the nature of the curricular provision, but in some schools high priority is given to creating a Welsh-language ethos throughout the school. The school communicates with parents in both languages.

**Outcomes -** for pupils in the Welsh stream, normal expectations are as for category . For pupils in the English medium stream, normal expectations are as for category 5.

## Mathau o ysgolion

3. Ysgol Gynradd Drawsnewidiol: cyfrwng Cymraeg ond â defnydd sylweddol o’r Saesneg

Y cwricwlwm - Mae disgyblion yn y Cyfnod Sylfaen yn cael profiad o’r meysydd dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg yn bennaf. Defnyddir y naill iaith a’r llall i addysgu yng Nghyfnod Allweddol 2, ond rhoddir mwy o bwyslais ar y Gymraeg, sy’n gyfrwng addysgu ar gyfer dros hanner a hyd at 70% o’r cwricwlwm. (Dim ond dros dro y byddai ysgolion yn y categori hwn fel arfer)

Iaith yr Ysgol - Cymraeg yw iaith yr ysgol o ddydd i ddydd. Rhoddir blaenoriaeth uchel i greu ethos Cymraeg. Mae’r ysgol yn cyfathrebu â’r rhieni yn y naill iaith a’r llall.

Y canlyniadau - Fel rheol, disgwylir y bydd rhai o’r disgyblion, yn enwedig y rheini o gartrefi Cymraeg eu hiaith, yn gallu trosglwyddo i ddarpariaeth uwchradd cyfrwng Cymraeg ac y bydd pob disgybl, erbyn diwedd Cyfnod Allweddol 2, wedi cyrraedd yr un safon yn y Saesneg â’r safon a gyrhaeddir gan ddisgyblion mewn ysgolion sydd, yn bennaf, yn rhai cyfrwng Saesneg

## Types of school

**3. Transitional primary school: Welsh medium with significant use of English**

**Curriculum -** Pupils in the Foundation Phase experience the areas of learning mainly through the medium of Welsh. Both languages are used in teaching at Key Stage 2 but with greater emphasis on Welsh, so that Welsh is used as the medium of instruction for over half and up to 70% of the curriculum.

(Schools would usually only be in this category on a temporary basis)

**Language of the School -** Welsh is the language of the day to day business of the school. A high priority is given to creating a Welsh ethos. The school communicates with parents in both languages.

**Outcomes -** The normal expectation is that some pupils, particularly from Welsh speaking homes may be able to transfer to Welsh medium secondary provision and by the end of Key Stage 2 all pupils will have reached a standard in English equivalent to that reached by pupils in predominantly English medium schools.

# Mathau o ysgolion

4. Ysgol Gynradd cyfrwng Saesneg yn bennaf ond â defnydd sylweddol o'r Gymraeg

Y cwricwlwm - Mae disgyblion yn y Cyfnod Sylfaen yn cael profiad o'r meysydd dysgu yn y naill iaith a'r llall ond rhoddir mwy o bwyslais ar y Saesneg. Defnyddir y Gymraeg a'r Saesneg wrth addysgu yng Nghyfnod Allweddol 2, ond rhoddir mwy o bwyslais ar y Saesneg. Mae'r Gymraeg yn gyfrwng addysgu ar gyfer 20% - 50% o'r cwricwlwm cynradd yn gyffredinol.

Iaith yr Ysgol - Cyd-destun ieithyddol yr ysgol sy'n pennu iaith neu ieithoedd yr ysgol o ddydd i ddydd. Defnyddir y naill iaith a'r llall i gyfathrebu â'r disgyblion ac yng ngweinyddiaeth yr ysgol. Rhoddir blaenoriaeth uchel i greu ethos Cymraeg. Mae'r ysgol yn cyfathrebu â'r rhieni yn y naill iaith a'r llall.

Y canlyniadau - Disgwylir y bydd y disgyblion, fel rheol, yn mynd i ddarpariaeth uwchradd cyfrwng Saesneg, ond y bydd ganddynt gwell sgiliau o safbwynt y Gymraeg fel ail iaith. Mae'n bosibl y bydd rhai o'r disgyblion yn gallu dilyn nifer bach o bynciau drwy gyfrwng y Gymraeg ar y lefel uwchradd os yw'r dewis hwnnw ar gael.

# Types of school

**4. Predominantly English Medium primary school but with significant use of Welsh**

**Curriculum -** Pupils in the Foundation Phase experience the areas of learning in both languages but with greater emphasis on English. In Key Stage 2, both Welsh and English is used in teaching but there is greater emphasis on English. Welsh is used as the medium of teaching or learning for between 20% and 50% of the primary curriculum overall.

**Language of the School -** The day to day language or languages of the school are determined by the school's linguistic context. Both languages are used as languages of communication with the pupils and for the school's administration. A high priority is given to creating a Welsh ethos. The school communicates with parents in both languages.

**Outcomes -** The normal expectation is that pupils will transfer to English medium secondary provision, but will have attained enhanced Welsh second language skills. Some pupils may be able to pursue a limited number of subjects through the medium of Welsh at secondary level where these are offered.

# Mathau o ysgolion

5. Ysgol Gynradd cyfrwng Saesneg yn bennaf

Y cwricwlwm - Mae pob disgybl yn y Cyfnod Sylfaen yn cael profiad o'r meysydd dysgu drwy gyfrwng y Saesneg yn bennaf. Saesneg yw'r prif gyfrwng addysgu yn CA2. Addysgir y Gymraeg fel ail iaith yn CA2, ac mae'n bosibl y caiff rhai agweddau ar rai pynciau eu dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae llai na 20% o'r addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg.

Iaith yr Ysgol - Saesneg yw iaith yr ysgol o ddydd i ddydd, ond defnyddir rhywfaint o Gymraeg hefyd i gyfathrebu â'r disgyblion, gan anelu at wella eu gallu i ddefnyddio Cymraeg bob dydd. Mae'r ysgol yn cyfathrebu â'r rhieni naill ai yn Saesneg neu drwy gyfrwng y naill iaith a'r llall.

Y canlyniadau - Fel rheol, disgwylir y bydd y disgyblion yn trosglwyddo i ddarpariaeth uwchradd cyfrwng Saesneg ac yn parhau i ddysgu drwy gyfrwng y Saesneg yn bennaf, gan ddysgu Cymraeg fel ail iaith.

# Types of school

**5. Predominantly English medium primary school**

**Curriculum -** All pupils in the Foundation Phase experience the areas of learning mainly through the medium of English. English is the main teaching medium at KS2. Welsh is taught as a second language in KS2, and some aspects of some subjects may be taught in Welsh.

Less than 20% of the teaching is through the medium of Welsh.

**Language of the School -** English is the language of the day to day business of the school, but some Welsh is also used as a language of communication with the pupils with the aim of improving their capacity to use everyday Welsh. The school communicates with parents either in English or in both languages.

**Outcomes -** The normal expectation is that pupils will transfer to English medium secondary provision and continue to learn predominantly through the medium of English, learning Welsh as a second language.

# Y nod ar gyfer 2050

# The aim for 2050



# Eich cyfrifoldebau proffesiynol

# Your professional responsibilities



[Languages, Literacy & Communication.pdf]

**Edrych ar arfer da** **Looking at a good practice**



https://www.youtube.com/watch?v=bYh1f9rE6ao

**https://whiteboard.fi/**

# Yn eich dosbarth – dod a fe tu gilydd

# In your classroom – bringing it together

Descriptions of Learning

Languages connect us

| Progression step 1 | Progression step 2 | Progression step 3 | Progression step 4 | Progression st |
|---|---|---|---|---|
| I am beginning to be aware of a link between language(s) and culture and am developing a sense of belonging. | I can recognise that there is a relationship between languages, culture and my own sense of Welsh identity. | I can understand that there are connections between language, culture and identity and that these differ within Wales and around the world. | I can understand how languages can provide a sense of belonging to a local and global community.<br><br>I can explore and analyse how languages impact upon identity and culture and understand that learning them offers enhanced opportunities in Wales and in international contexts. | I can show an attitude towa about differe and the diff of Wales a<br><br>Through languag how th betw cultu We cit |
| I am beginning to understand that there are different languages in my environment.<br><br>I am beginning to talk with my peers in the language of the setting/school. | I can understand that people use different languages. | I can communicate in a growing range of languages. | I can use my knowledge of how languages work to support further language learning. | |

132

EAL – Saesneg fel Iaith Ychwanegol

# EAL – English as an Additional Language



# Cyfeirnodau


- Department for children, schools and families (2007) *Supporting children learning English as an additional language. Guidance for practitioners in the Early Year Foundation Stage*. Crown: London.
- Yr Adran Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau (2007) *Diffinio ysgolion yn ôl y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg.* Llywodraeth Cynulliad Cymru: Caerdydd*.*
- The Bell Foundation (2014). *School Approaches to The Education of EAL Students*. *Language development, social integration and achievement.* Cambridge: The Bell Foundation.
- Llywodraeth Cymru (2017) *Y Gymraeg mewn addysg 2017-. 2021.* Llywodraeth Cynulliad Cymru: Caerdydd*.*
- Llywodraeth Cymru(2018) *Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050 Cynllun Gweithredu 2019-2020.* Llywodraeth Cynulliad Cymru: Caerdydd*.*


# References


- Department for children, schools and families (2007) *Supporting children learning English as an additional language. Guidance for practitioners in the Early Year Foundation Stage*. Crown: London.
- Department for Children, Education, Lifelong Learning and Skills (2007 ) *Defining schools according to Welsh medium provision*. Welsh Assembly Government: Cardiff.
- The Bell Foundation (2014). *School Approaches to The Education of EAL Students*. *Language development, social integration and achievement.* Cambridge: The Bell Foundation.
- Welsh Government (2017) *Welsh in education 2017-. 2021.* Welsh Assembly Government: Cardiff.
- Welsh Government (2018) *Cymraeg 2050: A million Welsh speakers by 2050 Action plan 2019-2020.* Welsh Assembly Government: Cardiff.

- https://hwb.gov.wales/cwricwlwm-i-gymru/ieithoedd-llythrennedd-a-chyfathrebu
- https://hwb.gov.wales/curriculum-for-wales/languages-literacy-and-communication